Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Partneriaid â

BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL DYFED POWYS

DYFED POWYS CRIMINAL JUSTICE BOARD

***Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed Powys***

***Crynodeb 2024-2025***

**Gweledigaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys**

Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn Nyfed Powys, gan gynnwys gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion, a meithrin hyder yn y system gyfan.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol er mwyn meithrin ardal Dyfed-Powys diogel, cyfiawn a chynhwysol. Dathlu amrywiaeth ardal Dyfed-Powys, gan sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant yn sail i'r holl waith a wneir.

**Meysydd â blaenoriaeth**

Yn 2024/25, mabwysiadodd y bwrdd ddwy brif flaenoriaeth.

1. Dioddefwyr a thystion
2. Pobl sy'n troseddu

Roedd y bwrdd yn cyfrannu at y cynllun Cymru gyfan wrth ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol yn yr ardaloedd hyn hefyd.

Gwnaed ymrwymiad pellach gan y bwrdd ym mis Tachwedd 2024 mewn perthynas â gwasanaethau ieuenctid. Bydd y bwrdd yn cefnogi'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i gyflawni eu cynlluniau yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid er mwyn cyflawni deilliannau gwell i blant a phobl ifanc. Gwneir hyn trwy ymgysylltu, nodi heriau rhanbarthol sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol, datrys heriau rhanbarthol a datrys problemau, rhannu arferion da, a chefnogi'r cysylltiad lleol a chenedlaethol â'r systemau cyfiawnder i oedolion. Mae cynrychiolydd rhanbarthol o'r tîmau troseddau ieuenctid ac atal troseddau ieuenctid yn eistedd ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac yn llefaru ar ein rhan er mwyn sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei hystyried ym mhopeth y mae'r bwrdd yn ei drafod.

Gwnaed ymrwymiad gan yr aelodau, a gafodd ei gynnwys yn y cylch gorchwyl, sef y dylai grŵp y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol gefnogi'n llawn Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru, gan sicrhau bod ei flaenoriaethau wedi'u hymgorffori ym mhopeth y mae'r bwrdd, a'i sefydliadau, yn ei wneud. Mae aelodau wedi ymrwymo i gymryd cyfrifoldeb personol am hunan-ddatblygiad ac ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â gwrth-hiliaeth.

Daeth adolygiad Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru i ben ym mis Rhagfyr, a chytunwyd y byddai tair prif egwyddor yn llywio cyfeiriad y bwrdd yn y dyfodol:

- Bod y bwrdd yn cael ei arwain yn lleol
- Bod penderfyniadau'r bwrdd yn cael eu llywio gan fewnwelediadau i sicrhau deilliannau penodol
- Bod y bwrdd yn ddylanwadwr strategol

Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu tanategu gan y canlynol:

- Proses gosod blaenoriaethau cadarn sy'n defnyddio tystiolaeth ac sy'n nodi capasiti a galluoedd
- Strwythurau llywodraethu effeithiol

**Prif uchafbwyntiau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys**

**Blaenoriaeth 1 – Dioddefwyr a thystion**

- **Lansio gwasanaeth newydd i ddioddefwyr**
  Wedi'i reoli'n flaenorol gan Goleudy, mae gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys bellach yn cael eu darparu gan yr elusen annibynnol Cymorth i Ddioddefwyr.
  Cymorth i Ddioddefwyr yw'r brif elusen annibynnol i ddioddefwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddynt dros 50 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth cyfrinachol, rhad ac am ddim, i unrhyw un yr effeithiwyd arno gan drosedd a digwyddiadau trawmatig.
  Mae'n elusen annibynnol ar yr heddlu ac awdurdodau lleol, ond yn gweithio gyda nhw, a'r system gyfiawnder troseddol gyfan a chyrff perthnasol eraill, i wella gwasanaethau i ddioddefwyr a darparu cymorth y mae mawr ei angen.

  Lansiwyd y gwasanaeth ym mis Tachwedd 2024, ac mae ar gael i roi cymorth i unrhyw un yr effeithiwyd arno gan drosedd. Nid dioddefwyr yn unig, ond hefyd eu ffrindiau, eu teuluoedd ac unrhyw un yr effeithiwyd arno gan yr hyn sydd wedi digwydd. Bydd Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau i gynorthwyo dioddefwyr pan fo eu hangen; o gwnsela trawma a chyfarwyddyd ymarferol i gysylltiadau â gwasanaethau cymunedol. Mae'r gwasanaeth ar gael i ddioddefwyr pob math o drosedd, gan gynnwys dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ddioddefwyr risg uchel. Am y tro cyntaf, bydd y gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef troseddau. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth arbenigol.

**Felly, beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwasanaeth dioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys ac Uned Gofal Tystion yr heddlu?**
Bydd gwasanaeth dioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu cymorth wedi'i dargedu i ddioddefwyr, gan sicrhau eu bod yn cael cymorth a chyfarwyddyd priodol drwy gydol eu proses adferiad.
Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau megis:

- Swyddog Cymorth i Ddioddefwyr penodedig
- Cymorth ymarferol, gan gynnwys cyngor ynghylch atal troseddau
- Cymorth emosiynol
- Gwasanaeth cyfeirio ac atgyfeirio at asiantaethau cymorth eraill
- Cymorth reolaidd dros y ffôn, ar ffurf negeseuon testun, drwy e-bost a/neu wyneb yn wyneb

- Cyfarwyddyd a chymorth er mwyn sicrhau bod hawliau dioddefwyr yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Dioddefwyr.

Bydd yr Uned Gofal Tystion yn Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gefnogi tystion a dioddefwyr sy'n ymwneud ag achosion llys.
Wrth gael eu cefnogi gan yr Uned Gofal Tystion, bydd y dioddefwyr a'r tystion yn cael:

- Swyddog Gofal Tystion penodedig, o'r gwrandawiad llys cyntaf hyd at ddedfrydu
- Asesiad o'u hanghenion ar gyfer presenoldeb yn y llys
- Eu cynorthwyo â threfniadau cymorth ar gyfer presenoldeb yn y llys, fel y bo angen
- Diweddariadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol ym mhroses y llys, gan gynnwys dyddiadau'r gwrandawiadau llys a'r canlyniadau.

- **Cyflwynwyd Hyrwyddwyr Materion Cam-drin Domestig i Heddlu Dyfed-Powys**

  Mae'r fenter hon yn rhan o raglen newid diwylliant 'Domestic Abuse Matters', a ddatblygwyd gan SafeLives a'r Coleg Plismona, i ddatblygu gwybodaeth a gwella sgiliau ein gweithlu, yn enwedig y bobl hynny sy'n delio â digwyddiadau cam-drin domestig ar y rheng flaen.

  **Beth yw'r rhaglen 'Domestic Abuse Matters'?**

  Cynlluniwyd rhaglen Domestic Abuse Matters i helpu heddluoedd i gryfhau'r ffordd y maent yn ymateb i gam-drin domestig. Mae'n darparu hyfforddiant arbenigol i swyddogion sy'n aml yn bwynt cyswllt cyntaf i ddioddefwyr – yn ogystal â'r 'hyrwyddwyr' sydd wedi'u cyflwyno i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd. Mae'r hyfforddiant yn ymdrin ag agweddau hanfodol ar gam-drin domestig, megis deall rheolaeth drwy orfodaeth, cynnig gwell cipolwg ar effaith ymddygiadau rheoli ar ddioddefwyr, a nodi'r heriau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu wrth adael sefyllfaoedd camdriniol.

  Mae'r rhaglen hyfforddi hon yn sicrhau bod yr Hyrwyddwyr Materion Cam-drin Domestig newydd wedi'u paratoi'n dda i ddelio'n uniongyrchol â'r materion cymhleth sydd ynghlwm wrth achosion o gam-drin domestig, a chynghori arnynt. Y prif amcan yw datblygu ymateb mwy empathetig, cyson a gwybodus i gam-drin domestig ar draws Heddlu Dyfed-Powys.

  **Pwy yw'r Hyrwyddwyr Materion Cam-drin Domestig?**

  Mae'r Hyrwyddwyr Materion Cam-drin Domestig yn grŵp ymroddedig o swyddogion sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol yn wirfoddol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched. Ar hyn o bryd, mae 40 o Hyrwyddwyr Materion Cam-drin Domestig ar draws yr heddlu.

**Beth maen nhw'n ei wneud?**
Mae Hyrwyddwyr Materion Cam-drin Domestig yn frwd dros wella ein hymateb i gam-drin domestig, ac yn ceisio ysbrydoli cydweithwyr i wneud yr un peth. Maent yn darparu cyfarwyddyd hanfodol, yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gam-drin domestig, ac yn herio'r mythau a'r ystrydebau a all weithiau fod yn gysylltiedig â digwyddiadau o gam-drin domestig. Mae eu rôl yn cynnwys:
🤲Darparu cymorth: Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cydweithwyr y mae angen cyngor neu gymorth arnynt wrth ymdrin ag achosion o gam-drin domestig.
🧠Hyrwyddo dealltwriaeth: Chwalu mythau ac ystrydebau yn ymwneud â dioddefwyr cam-drin domestig, plant a chyflawnwyr.
✓Gwella ymarfer: Cynnal hapsamplu o hysbysiadau er diogelu'r cyhoedd yn ymwneud â materion domestig i nodi meysydd i'w gwella, a thynnu sylw at enghreifftiau o waith rhagorol yn yr heddlu. Mae hysbysiad er diogelu'r cyhoedd yn ddogfen rhannu gwybodaeth sy'n cofnodi pryderon ynghylch diogelu yn ymwneud ag oedolyn neu blentyn. Cânt eu rhannu ag asiantaethau partner i lywio ymateb amlasiantaeth.
🤝Gwella gwasanaeth: Sicrhau bod yr ymateb i gam-drin domestig yn gyson, yn amserol ac yn empathetig, gan flaenoriaethu diogelwch a llesiant dioddefwyr.

- **Cymorth i ddioddefwyr stelcio**
  Lansiwyd gwasanaeth cymorth peilot ar gyfer dioddefwyr stelcio ym mis Medi 2024 a ddarperir gan Wasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol Paladin, a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
  Mae Paladin yn cefnogi atgyfeiriadau ar gyfer dioddefwyr stelcio risg uchel o ardal Dyfed-Powys, ac mae dau Weithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol (ISAC) rhan amser yn cael eu cyflogi i weithio gyda dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r gweithwyr achos hyn wedi mynd i nifer o sesiynau hyfforddi, a sesiynau hyfforddi'r Gymraeg, ac yn parhau i fynd iddynt.

  Mae'r cynllun peilot hwn hefyd yn cynnwys hyfforddiant arbenigol ar ymwybyddiaeth o stelcio ar gyfer 60 o weithwyr proffesiynol, gan sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael eu cefnogi'n briodol mewn amrywiaeth o wasanaethau ar draws yr ardal. Mae dwy sesiwn hyfforddi eisoes wedi'u cynnal, ac mae'r drydedd sesiwn wedi'i threfn ar gyfer mis Mawrth. Mae cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau eisoes wedi mynychu, gan sicrhau dealltwriaeth eang o stelcio ar draws ardal Dyfed-Powys.

  O'i lansiad hyd at Ionawr 2025, mae 13 o ddioddefwyr stelcio wedi cael eu cefnogi, ac mae Paladin yn darparu adroddiad monitro chwarterol. Yn eu hadroddiad monitro chwarterol, cynhwysodd Paladin astudiaeth achos yn manylu ar ymyrraeth a chymorth a ddarparwyd i un o'u cleientiaid o'r ardal hon. Mae swm cadarnhaol a chalonogol o weithgarwch yn cael ei wneud.

- **Yr is-grŵp dioddefwyr a thystion**
  Yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r is-grŵp, clywodd aelodau'r is-grŵp cyfraniad pwysig gan aelod o banel cynghori goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Sarah Taylor – goroeswr cam-drin domestig, rheolaeth drwy orfodaeth, a cham-drin ar ôl gwahanu yn y llys teulu. Gwrandawodd y grŵp
  ar dystiolaeth Sarah, ac ymrwymo i dynnu sylw Llywodraeth Cymru a chyfiawnder troseddol yng Nghymru at yr heriau sy'n wynebu defnyddwyr llysoedd teulu.

  Cymeradwywyd protocol datgelu gwybodaeth rhwng asiantaethau teuluol ac asiantaethau troseddol ac awdurdodaethau 2024 a chrëwyd cyd-weithgor i roi'r protocol ar waith ledled Cymru.

  Mae prosiect 'braenaru'r' llys teulu hefyd bellach wedi'i lansio yn ardal barnwyr teulu dynodedig Canolbarth a Gorllewin Cymru, a bydd yn dechrau ar 3 Mawrth. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar gymorth i ddioddefwyr, ac yn arbennig, yn galluogi i leisiau plant gael eu clywed mewn achosion llys teulu. Bydd deilliannau hyn yn cael eu monitro'n agos gan y grŵp.

  Disgwylir i'r ffordd y mae'r is-grŵp yn ystyried materion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion newid yn 2025. Bydd yr is-grŵp yn cael ei lywio'n fwy gan ddata, a gofynnir i aelodau ystyried setiau data cyn y cyfarfod sy'n ymwneud â'r amcanion yng nghynllun cyflawni'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, h.y. cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, cyfraddau gadael unigolion sy'n profi cam-drin domestig, a pherfformiad o ran delio â threisio a throseddau rhywiol difrifol, ochr yn ochr â phynciau pwysig fel ymgysylltu â dioddefwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod yr is-grŵp yn ymateb i dueddiadau a galwadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn gallu dangos tystiolaeth o gyflenwi yn erbyn amcanion cynllun cyflenwi'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

- **Cod Ymarfer i Ddioddefwyr**
  Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr yn canolbwyntio ar hawliau dioddefwyr, ac yn nodi'r safon ofynnol y mae'n rhaid i sefydliadau ei darparu i ddioddefwyr troseddau.
  O dan y cod dioddefwyr, mae gan ddioddefwr yr hawl "i gael ei atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau wedi'u teilwra [i'w] hanghenion".

  Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd i adolygu cydymffurfedd sefydliadau cyfiawnder troseddol â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau.
  Mae'r llywodraeth newydd wedi cytuno y bydd ymgynghoriad ar fetrigau yn cychwyn yn 2025, a disgwylir cytundeb yn 2026. Ymunodd cynghorydd polisi o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â gweithgor y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar fframwaith cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

Mae gagendor o hyd o ran capasiti i adrodd ar gyfraddau cydymffurfedd. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen Cymru gyfan i weld sut y gall sefydliadau cyfiawnder troseddol gasglu a dadansoddi data.

- **Datblygiadau yn ymwneud â cham-drin domestig**
  Cynhaliwyd gweithdy ar-lein i oroeswyr ym mis Ebrill. Aeth deg unigolyn i'r gweithdy, ac roedd pob un ohonynt naill ai'n profi cam-drin domestig ar hyn o bryd, neu wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig yn flaenorol. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant gydag ymgysylltiad gwych gan gyfranogwyr.

  Cyflwynwyd hyfforddiant Gwasanaeth Erlyn y Goron a oedd yn cwmpasu mesurau arbennig, rôl yr erlynydd, erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth a gwysion tystion. Bydd y recordiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu hyfforddiant yn Heddlu Dyfed-Powys.

  Mae swyddogion cam-drin domestig yr heddlu, a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, o'r gwasanaeth a gomisiynwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bellach yn cyd-leoli. Mae hyn yn galluogi rhannu gwybodaeth yn amserol, a chael cyngor yn gynnar ar ddigwyddiadau, gan sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diogelu. Mae hyn yn dilyn arferion gorau Ymgyrch Soteria Bluestone ar gyfer achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol. Mae pwyntiau cyswllt unigol ar draws ardal yr heddlu wedi'u nodi ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.

  Mae'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig bellach yn cwmpasu pedwar rhanbarth Dyfed-Powys, sef Sir Gaerfyrddin, Powys, Ceredigion a Sir Benfro. Roedd Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn ymwneud â hyfforddi timau yr uned ymateb rhithwir. Mae'r gwasanaeth yn rhoi'r opsiwn i ddioddefwyr sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau domestig nad oes angen ymateb brys arnynt

  siarad â swyddog dros fideoalwad. Mae'r bobl hynny sy'n dewis yr opsiwn hwn yn cael gwasanaeth fideo ar unwaith, yn hytrach nag ymateb wyneb yn wyneb wedi'i oedi. Mae ymateb fideo ar unwaith yn caniatáu ar gyfer nodi risg yn gynt, ac asesu cyfleoedd tystiolaethol.

  Rhoddwyd strwythur llywodraethu newydd ar waith er mwyn sicrhau bod pob rhanbarth yng Nghymru yn goruchwylio'r ymateb cyfiawnder troseddol o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, gan rannu arferion da a chydweithredu. Mae grwpiau llysoedd trais domestig arbenigol lleol wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol i oruchwylio perfformiad lleol, adolygu data i fesur llwyddiant, y cynlluniau cyfiawnder ar y cyd ac adrodd i'r is-grŵp dioddefwyr a thystion (sydd wedyn yn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol). Bydd cadeiryddion y bwrdd goruchwylio yn mynd i bob cyfarfod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol wrth symud ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a'r gwaith sy'n cael ei gwblhau.

- **Canlyniadau cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr treisio**
  Mae dioddefwyr bellach yn cael cynnig cymorth arbenigol o ddechrau ymchwiliadau, gan gynnwys ystyried mesurau arbennig a llesiant a diogelu dioddefwyr. Rhoddir mwy o ystyriaeth hefyd i osod amodau mechnïaeth ar unigolion dan amheuaeth.

  Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o fis Gorffennaf i fis Medi 2024 yn dangos bod Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiad sylweddol o 90% yn y dyddiau cyfartalog a gymerwyd i'r heddlu gyhuddo troseddwr, a dyma'r unig heddlu yng Nghymru sydd â chyfradd sy'n is na cyfartaledd y DU.

  Datblygwyd Ymgyrch Soteria mewn ymateb i bryder ar draws y DU ynghylch ymchwilio i dreisio a throseddau rhyw difrifol a'r epidemig cynyddol, sef trais yn erbyn menywod a merched. Wedi'i lansio yn 2021, ei nod oedd cynyddu nifer yr achosion o dreisio ac ymosodiad rhywiol difrifol ar oedolion sy'n arwain at gyhuddiadau, a hefyd sicrhau gwelliant parhaus i ymateb system gyfan cyfiawnder troseddol.

  Arweiniodd hyn at ddatblygu'r model gweithredu cenedlaethol cyntaf ar gyfer ymchwilio i dreisio a throseddau rhyw difrifol.
  Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithredu cynhyrchion y model gweithredu cenedlaethol fel rhan o Ymgyrch Soteria Bluestone. Cymeradwywyd y cynllun gweithredu gan Grŵp y Prif Swyddog ym mis Ionawr 2025.

  Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i leihau athreuliad a chael cyfiawnder gweithdrefnol i ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol. Crëwyd tîm Ymgyrch Bluestone i ddarparu ymateb rhithwir i ddioddefwyr trais rhyw nad yw'n acíwt. Yn dilyn y chwe mis cyntaf, mae'r buddion a welwyd yn cynnwys cynnydd o 6% yn nifer y dioddefwyr sy'n cefnogi'r broses cyfiawnder troseddol, a chynnydd o 23% yn nifer y dioddefwyr sy'n cytuno i gael eu hatgyfeirio i gael cymorth gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol.

  Bydd trais rhywiol yn parhau i fod ar frig yr agenda cyfiawnder troseddol, a thra bod materion yn mynd rhagddynt mae yna bob amser feysydd sy'n datblygu lle mae angen i'r holl randdeiliaid gydweithredu i wella'r sefyllfa.

- **Mesurau arbennig**
  Mae Cyfleusterau Tystiolaeth Cyswllt Fideo Diogel yn safleoedd o bell yng Nghymru lle gall goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol gyflwyno eu tystiolaeth mewn amgylchedd diogel. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid rhoi tystiolaeth mewn ystafell llys. Gall dioddefwyr a thystion achosion cam-drin domestig a thrais rhywiol deimlo'n fwy diogel, ac wedi'u hamddiffyn, heb fod yn yr un adeilad â'r cyflawnwr a'u teulu/ffrindiau. Mae gweithwyr cymorth arbenigol ym mhob cyfleuster.

Er bod y defnydd o safleoedd tystiolaeth o bell yn ardal Dyfed-Powys wedi parhau i fod yn isel eleni, mae holl aelodau'r is-grŵp dioddefwyr a thystion yn parhau i hyrwyddo'r cyfleusterau ac annog defnyddio'r safleoedd hyn a mesurau arbennig eraill.

- **Dyletswydd Trais Difrifol**
  Mae partneriaeth Trais Difrifol Dyfed-Powys wedi cytuno ar nifer o ymyriadau i dargedu'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr asesiad o anghenion strategol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ariannol:
  - Gwasanaethau trais domestig Calan – darparu cwnsela i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol
  - Cyngor Sir Ceredigion – astudiaeth ddichonoldeb, 'beth mae pobl ifanc yn ei wneud ar-lein?'.
  - Heddlu Dyfed-Powys – Ymgyrch Vigilant. Nod hyn yw nodi unigolion sy'n ymddangos fel pe baent yn cyflwyno risg i eraill drwy arddangos ymddygiadau rhywiol rheibus yn economi'r nos. Mae'r prosiect yn dibynnu ar swyddogion mewn gwisg plaen a swyddogion lifrog. Mae swyddogion mewn gwisg plaen a hyfforddwyd yn monitro, ac mae swyddogion lifrog yn cefnogi trwy weithredu fel 'timau tarfu'.
  - Heddlu Dyfed-Powys – Hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma ar gyfer y Ganolfan Bregusrwydd
  - Gwaith dwysáu INTACT. Mae INTACT yn Dîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal sy'n ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus y nodwyd eu bod yn wynebu risg.
  - Penset realiti rhithwir INTACT – Cynhelir sesiynau gyda phobl ifanc i dynnu sylw at fygythiadau ar-lein, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, llinellau cyffuriau a chamfanteisio troseddol gyda'r gobaith o ddarparu ymateb mwy cydweithredol i'r bygythiadau trais difrifol a throseddau trefnedig. Gyda'r defnydd o benset realiti rhithwir, bydd tîm INTACT nid yn unig yn gallu addysgu pobl ifanc, ond partner-asiantaethau, cyfleusterau ar ôl ysgol, gwasanaethau atal ar gyfer pobl ifanc a gofalwyr.
  - Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn – darparu cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig.
  - Llwybrau Newydd – Hyfforddiant cyfweld ysgogol. Mae hon yn dechneg a ddefnyddir gan staff sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi profi trais rhywiol a'r bobl hynny sy'n arddangos ymddygiad rhywiol problemus. Mae wedi'i gynllunio i helpu pobl i ddod o hyd i'r cymhelliant i wneud newid ymddygiad cadarnhaol. Mae'n ddull sy'n canolbwyntio ar y cleient, ac mae'n arbennig o effeithiol ar gyfer pobl sydd â theimladau cymysg am newid eu hymddygiad. Yn aml mae angen i ddioddefwyr trais rhywiol wneud newidiadau ymddygiad i ddelio â strategaethau ymdopi â thrawma negyddol sydd wedi hen galedu (camddefnyddio sylweddau, ymddygiadau risg uchel, anhwylder bwyta, hunan-niweidio ac ati) a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol problemus y mae angen help arnynt i newid yr ymddygiadau hyn.
  - Llwybrau Newydd – cwnsela i bobl 18 i 25 oed sydd wedi profi trais rhywiol.

- Premier League Kicks – sesiynau pêl-droed i bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig sy'n rhoi cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai atal.
- Sesiynau hyfforddi BAWSO – Sicrhawyd cyllid dyletswydd trais difrifol gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddarparu sesiynau hyfforddi ym mis Mawrth i weithwyr proffesiynol sy'n delio â grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio sydd mewn perygl o droseddau trais yn erbyn menywod a merched neu sydd wedi cael profiad uniongyrchol o'r troseddau hyn.

Bydd y sesiynau'n cynnwys:

- Gweithio gyda phobl heb hawl i gyllid cyhoeddus
- Cam-drin domestig o safbwynt pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Amrywiaeth ddiwylliannol ac arferion niweidiol
- Gweithio'n effeithiol gyda chyfieithwyr ar y pryd
- Trais domestig a'r effaith ar blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg
- Y triawd tocsig: Asesu ac ymateb i'r effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Anffurfio organau cenhedlu benywod
- Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl
- Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd

**Blaenoriaeth 2 – Pobl sy'n troseddu**

- **Canolfan Merched**

  Agorwyd Canolfan y Merched yng Nghaerfyrddin yn ffurfiol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Medi 2024. Y prif waith a wneir yn y ganolfan yw cyflawni'r contract gwasanaethau adsefydlu cymunedol, cefnogi menywod sydd ar orchmynion prawf, a menywod sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ar ddiwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu. Gall pob menyw wneud eu diwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu a chael cymorth arall gydag Ymddiriedolaeth Nelson yn y ganolfan. Mae gan ganolfan Caerfyrddin ddull system gyfan sy'n caniatáu ymyrraeth gynnar, ac felly mae'n agored i unrhyw fenyw â nifer o anghenion cymhleth. Mae'r ganolfan yn darparu sesiynau un-i-un ac ymyriadau grŵp, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth gyda banciau bwyd, nyrsys iechyd rhywiol, gwasanaeth cam-drin domestig, y tîm prawf a mwy.

  Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r defnydd o'r safle ymhellach ar gyfer cymorth amlasiantaeth i droseddwyr benywaidd lefel isel.

  Enwebwyd Ymddiriedolaeth Nelson ar gyfer y Wobr Cymunedau Mwy Diogel am eu gwaith yn Nyfed-Powys, a dyfarnwyd y wobr mewn seremoni ym mis Tachwedd 2024.

- **Anghenion o ran tai ar gyfer troseddwyr**

  Mae tai yn cael eu cydnabod yn eang fel un o'r prif anghenion troseddogenig ymhlith troseddwyr. Codwyd y mater hwn ar draws y pedwar awdurdod lleol, a

chafodd y bwrdd diogelu rhanbarthol y dasg o nodi prosiect tai addas. Cynigiodd Sir Gaerfyrddin fod yn ardal beilot gan ddarparu llety cefnogol i unigolion bregus a chaotig, a llety brys ar gyfer pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae eiddo addas yn cael ei geisio yng Nghaerfyrddin, ac mae trafodaethau ynghylch cyllid a chymorth yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r datblygiad hwn.

Amlygwyd tai ar gyfer troseddwyr fel problem ar draws pob ardal yng Nghymru, ac mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cefnogi cyfathrebu â Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, yn gofyn am sgwrs ar y cyd ar y mater yn ystod y misoedd nesaf.

- **Cynllun Peilot Tai ar gyfer Rheoli Troseddwyr yn Integredig**
  Nododd y tîm Rheoli Troseddwyr yn Integredig yng Ngheredigion mai llety oedd y prif angen i geisio torri'r cylch troseddu. Nid oedd prosiectau amlfeddiannaeth presennol yn cynnig amgylchedd na chyfle ar gyfer adsefydlu.

  Darparodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllid sefydlu ar gyfer eiddo penodol (fflat ag un ystafell wely) i sefydlogi unigolion Rheoli Troseddwyr yn Integredig tra daethpwyd o hyd i fwy o lety hirdymor.

  Mae'r prosiect yn dibynnu ar ddull partneriaeth rhwng y prif asiantaethau Rheoli Troseddwyr yn Integredig. Mae tîm yr heddlu yn nodi ac yn rheoli'r atgyfeiriadau ar gyfer yr eiddo. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn cefnogi unigolion yn ystod eu hamser yn y llety. Mae Barcud, y gymdeithas dai, yn darparu'r eiddo ar drefniant trwydded. Mae Cymdeithas Gofal yn darparu rheolaeth tai a chymorth i'r unigolion. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r fenter, ac yn trin unigolion sy'n defnyddio'r eiddo fel petaent yn ddigartref, ac mewn llety dros dro, gan eu galluogi i gael mynediad at opsiynau symud ymlaen. Darperir cymorth cofleidiol trwy bartneriaid Rheoli Troseddwyr yn Integredig eraill, gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, sy'n golygu bod yr unigolyn fel arfer yn cael ymweliad yn ei gartref bob dydd gan un o'r asiantaethau.

  Ers lansio'r prosiect yn 2021 mae bellach yn gweithredu'n llwyddiannus yng Ngheredigion a Phowys. Mae Gogledd Cymru wedi cydnabod llwyddiant cynllun o'r fath, ac mae ganddynt ddiddordeb mewn mabwysiadu'r cynllun yn eu hardal, a bydd trafodaethau ynghylch hyn yn cael eu cynnal yn fuan.

  Mae awdurdodau lleol Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn cefnogi'r cynllun, ac yn mynd ati i chwilio am eiddo addas. Mae mawr angen sefydlu'r prosiect yn Sir Gaerfyrddin hefyd, gan fod ganddi'r garfan uchaf o unigolion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Rheoli Troseddwyr yn Integredig ledled ardal yr heddlu.

- **Cynllun gwneud iawn â'r gymuned**
  Mae nifer o egwyddorion craidd y tu ôl i brosiectau gwneud iawn â'r gymuned, gan gynnwys cosb gredadwy, gwelededd, adsefydlu, diogelwch y cyhoedd a

chyfranogiad y cyhoedd. Mae'r mathau o brosiectau a gwblhawyd yn rhai sydd o fudd i'r gymuned, lle, yn ddelfrydol, caiff y prosiect ei enwebu gan y cyhoedd, ac nid yw'n cael gwared ar unrhyw gyflogaeth am dâl.

O ran ardal Dyfed-Powys, gweithiwyd dros 43,108 o oriau yn ystod y 12 mis rhwng Chwefror 2024 ac Ionawr 2025. Yn 2024, cynigiwyd apwyntiad gwaith cyntaf i 89.8% o bobl ar brawf yn Nyfed-Powys cyn pen 15 diwrnod busnes o gael eu dedfrydu, a chwblhaodd 71.8% ohonynt eu horiau cyn pen 12 mis o gael eu dedfrydu.

Ar gyfartaledd, mae grwpiau o bobl ar brawf a oruchwylir gan oruchwylwyr gwneud iawn â'r gymuned yn gweithio ar fwy na 25 o brosiectau'r mis a enwebir gan aelodau'r cyhoedd. Mae yna hefyd nifer o leoliadau ar gael gyda sefydliadau lleol sy'n darparu goruchwyliaeth o ddydd i ddydd ar gyfer pobl addas ar brawf. Gellir teilwra'r lleoliadau hyn i ddarparu ar gyfer anghenion personol a nodweddion gwarchodedig i wneud yn siŵr bod gwaith di-dâl mor gynhwysol â phosibl.

Yn ogystal, roedd y prosiect yn cynnig rhaglen addysg, hyfforddi a chyflogaeth, a oedd ar gael i bobl ddi-waith, mewn perygl o fod yn ddi-waith neu sydd am wella eu rhagolygon gyrfa. Mae platfform dysgu ar-lein ag 20 uned ddysgu mewn 10 iaith wahanol hefyd ar gael i gefnogi llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd. Mae'r prosiect hefyd yn annog cyfranogwyr i wirfoddoli.

Mae enghreifftiau o brosiectau cyfredol yn ardal Dyfed-Powys yn cynnwys Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Pentip yn Llanelli, Ysgol Gatholig y Santes Fair Llanelli, Ysgol Llwyn-yr-Eos Aberystwyth, Eglwys Gadeiriol Aberhonddu, prosiect Gwlyptiroedd y Drenewydd a Help the Homeless yn Llanfair-ym-Muallt. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud mewn nifer o eglwysi a chapeli ledled Dyfed-Powys, gan gynnwys torri gwair, strimio llystyfiant, plannu gwrychoedd a gosod llwybrau. Mae amryw o brosiectau codi sbwriel yn cael eu cynnal ledled yr ardal, ac rydym yn gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru, clybiau chwaraeon lleol a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol.

Mae unigolion addas yn ymgymryd â lleoliadau mewn siopau elusen, Ail Gyfle – Second Chance yn Llanelli, Tŷ Hafan, RSPCA, YMCA, elusen Sue Ryder a hosbis Paul Sartori i gyflawni eu gofynion gwaith di-dâl.

Ceir enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn ardal Dyfed-Powys gan bobl ar brawf isod:

*Eglwys y Santes Fair, Aberteifi – Cael gwared ar rwd a hen baent cyn ail-baentio*






*Casglu sbwriel – Clirio sbwriel o fannau problemus o ran sbwriel o gwmpas y sir*





- **Cyfiawnder adferol**
  Dechreuwyd darn o waith i adolygu ac adnewyddu'r cynnig cyfiawnder adferol ar draws Dyfed-Powys yn 2024. Mae arweinydd portffolio wedi'i benodi ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, ac mae'n adolygu'r arferion cyfredol yn erbyn disgwyliadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer swyddogion; y dewis o opsiynau adferol sy'n cael eu defnyddio, a'r cynnig gweithredol o gyfranogiad mewn cyfiawnder adferol i ddioddefwyr troseddau.

- **Darpariaeth ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**
  Yn hanesyddol, mae nifer o raglenni ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig wedi cael eu darparu ar draws Dyfed-Powys. Cynhaliwyd ymarfer comisiynu rhanbarthol yn ddiweddar i ddarparu cynnig cynhwysfawr o ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr ar draws y rhanbarth gydag un pwynt atgyfeirio i nifer o raglenni, yn dibynnu ar y math o droseddu a'r risg o droseddu. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn

arwain y broses gaffael ar ran holl gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Partneriaeth ranbarthol. Mae'r ddarpariaeth yn dechrau ym mis Ebrill 2025, a bydd yn darparu tri chynllun lle bydd modd symud rhwng rhaglenni wrth i'r risg gynyddu a lleihau. Mae hyn yn cynnwys cymorth seicolegol arbenigol ar gyfer troseddwyr stelcio.

Mae gan bob rhaglen gymorth i bartneriaid a theuluoedd. Bydd y darparwr hefyd yn cyflwyno rhaglen CARA sydd newydd ei rhoi ar waith, gan roi cymorth i droseddwyr a'u teuluoedd fel rhan o'r model datrysiad y tu allan i'r llys.